# Ffeithlen Pyllau

**This factfile intends to provide the background information necessary for teachers to use the lesson plans and worksheets confidently. A number of other websites that may be useful include Wikipedia, ARKive, BBC Nature, Naturenet, RSPB and The Wildlife Trust.**

## Gelen

Mae gelod a mwydod yn perthyn i grŵp mawr o anifeiliaid a adwaenir fel Anelidau (mwydod wedi'u segmentu). Mae gelod yn perthyn i is-ddosbarth yr Hirundea. Adwaenir gelod fel ‘sugnwyr gwaed’, ac mae rhai wedi cael eu defnyddio at ddibenion meddygol, ond nid yw pob rhywogaeth o elod yn dibynnu ar waed i oroesi. Mae rhai'n bwyta creaduriaid bach di-asgwrn-cefn megis penbyliaid a mwydod, weithiau'n gyfan.

Mae gelod gwaedysol (sy'n bwyta gwaed) yn glynu wrth yr organeb letyol trwy ddefnyddio sugnolyn geneuol. Mae eu poer yn cymysgu â gwaed yr organeb letyol, gan ei atal rhag ceulo. Ar ôl gorffen bwydo, byddant yn rhyddhau eu gafael ac yn cwympo i'r llawr er mwyn treulio'r gwaed. Gall gelod oroesi ar un pryd o waed am amser hir iawn.

Bydd rhai rhywogaethau o elod yn meithrin eu rhai ifanc, gan ddarparu bwyd, cludiant a diogelwch - sy'n ymddygiad anarferol mewn creaduriaid di-asgwrn-cefn. Fel mwydod, maent yn ddeurywiaid. Maent yn atgenhedlu trwy ffrwythloni cilyddol (dau unigolyn yn paru ac yn ffrwythloni ei gilydd).

Gall eu symudiadau fod yn debyg i rai mwydyn, er bod modd eu gweld hefyd yn nofio ar draws dŵr agored, neu'n cropian dros blanhigion neu foncyffion sydd o dan wyneb y dŵr. Pan ddeuir

o hyd iddynt yn y cysgod, eu lliw naturiol gwirioneddol yw llwydwyrdd. Ond mewn heulwen ddisglair maent yn ymddangos yn felyn/brown iawn.

Nid yw gelen yn meddu ar dagellau nac ysgyfaint i anadlu. Mae llawer o fân wythiennau ger arwyneb eu cyrff yn amsugno ocsigen ac yn allyrru carbon deuocsid.

## Crëyr Glas

Lladin: *Ardea cinerea*
Aderyn hirgroes yn nheulu'r crehyrod yw'r crëyr glas, sydd i'w gael ledled y rhan fwyaf o Ewrop ac Asia a rhannau o Affrica. Mae'n aderyn tal (fel arfer 90-100cm) gyda gwddf a choesau hir, a phig trwm ar ffurf dagr.

Mae tu uchaf ei blu gan mwyaf yn llwyd, ac mae ganddo ben gwyn â rhesen ddu uwchben y llygad sy'n ymestyn i grib fechan. Wrth hedfan, mae hanner allanol yr adenydd yn ddu ac mae curiad yr adenydd yn araf iawn gyda'r gwddf wedi'i dynnu'n ôl i'w ysgwyddau a'r coesau wedi ymestyn.

Yn aml byddant yn sefyll yn gwbl llonydd mewn dŵr neu yn ei gyffiniau, gan aros am ysglyfaeth. Prif ddeiet y crëyr glas yw pysgod, amffibiaid, mamaliaid bach ac, ar adegau, adar. Byddant yn gwagio pwll gardd o'i bysgod yn gyflym iawn. Mae'r rhywogaeth hon yn bridio mewn cytrefi mewn coed ger llynnoedd, glannau'r môr neu wlyptiroedd, er y bydd hefyd yn nythu mewn gwelyau cyrs weithiau. Mae'n adeiladu nyth swmpus o ffyn. Yr enw am gytref o'r nythod hyn yw crëhyrfa.

## Crothell

Pysgodyn bach yw'r grothell, sydd yn aml yn cael ei ddal gan blant ysgol wrth archwilio pyllau. Mae'r teulu, o'r enw Gasterosteidae, yn cynnwys sawl rhywogaeth o grethyll. Mae'r grothell i'w chael mewn lleoliadau dŵr croyw yn Ewrop, Asia a Gogledd America. Tarddiad yr enw cyffredin yn Saesneg, "stickleback", yw'r pigau miniog ar gefn y pysgodyn, weithiau dau neu bedwar ond fel arfer tri. Nodwedd anarferol y grothell yw nad oes ganddi unrhyw gennau, er bod gan rai rhywogaethau blatiau esgyrnog fel arfwisg.

Ei phrif fwyd yw creaduriaid bach di-asgwrn-cefn sy'n byw mewn dŵr; hefyd wyau pysgod a physgod ifanc.  Mae'r grothell ei hun yn gallu bod yn fwyd i ysglyfaethwyr mwy, megis pysgod mwy, crehyrod, chwistlod dŵr a dyfrgwn. Mae'r pigau fwy na thebyg yn ei hamddiffyn rhag rhai o'i gelynion. Pan fo'r pigau'n cael eu codi, mae'n bosib y byddai pysgod mwy yn cael trafferth yn llyncu crothell.

Y rhywogaeth fwyaf cyffredin yn y wlad hon yw'r grothell dri phigyn (*Gasterosteus aculeatus aculeatus*). Yn Saesneg, enw cyffredin ar lafar amdano yw'r "tiddler". Mae pob rhywogaeth yn arddangos ymddygiad paru tebyg, sydd hefyd yn anarferol ymhlith pysgod. Mae'r gwryw yn adeiladu nyth o lystyfiant a ddelir ynghyd gan hylifau wedi'u cynhyrchu gan eu harennau. Yna bydd y gwryw'n denu'r fenyw i'r nyth i ddodwy ei hwyau y tu mewn lle gall y gwryw ei ffrwythloni. Mae'r gwryw wedyn yn gwarchod yr wyau nes iddynt ddeor.

Eu cynefinoedd mwyaf cyffredin yw safleoedd â llawer o lystyfiant sydd fel arfer â gwaelodion lleidiog neu dywodlyd.

## Neidr y glaswellt

Lladin: *Natrix natrix*

Nadroedd y glaswellt yw'r ymlusgiaid tir mwyaf yn ne Cymru. Yr enghraifft hwyaf o'r neidr hon i'w chofnodi ym Mhrydain oedd un yn mesur 180cm o hyd, ond 65 - 80cm yw'r hyd arferol. Lliw nodweddiadol neidr y glaswellt yw ffurfiau amrywiol ar gwyrdd olewydd/brown gyda rhesi neu gylchoedd du fertigol, sy'n amrywio'n sylweddol o ran maint a thrwch. Ceir anifeiliaid hollol ddu ambell waith. Mae'r llygaid yn wyrdd olewydd golau gyda chanhwyllau crwn du. Nodwedd sy'n ein helpu i'w hadnabod yw'r rhan o'r croen ar wegil yr anifail sydd, fel arfer, yn ffurf amrywiol o felyn y cyfeirir ati'n aml fel y "coler".

Nid yw neidr y glaswellt yn wenwynig. Ei hunig ddull amddiffyn yw rhyddhau hylif drewllyd a/neu ffugio ei bod yn farw. Maent ymhlith yr ychydig o anifeiliaid sy'n ffugio bod yn farw fel dull amddiffyn rhag ysglyfaethwyr. Prin y byddant yn brathu a dim ond pan fydd popeth arall wedi methu.

Yn bennaf, mae nadroedd y glaswellt yn bwyta amffibiaid a physgod bach ac fe'u ceir yn aml yn agos at ddŵr croyw. Mae'n well ganddynt gynefinoedd llaith, gan gynnwys glannau afon, pyllau a ffosydd, ond maent hefyd yn trigo mewn gwrychoedd a dolydd ac ar ffermdir a chyrion coetiroedd. Mae'r fenyw'n dodwy wyau yn ystod mis Mehefin neu fis Gorffennaf, gan chwilio am fannau sy'n creu gwres megis pentyrrau o sglodion pren, llystyfiant neu wrtaith i wneud hynny, ac yn aml yn defnyddio tomenni compost. Mae nadroedd bach y glaswellt yn ymddangos o ganol mis Awst ymlaen. Un ffordd hawdd o helpu nadroedd y glaswellt yw darparu safleoedd dodwy wyau a gaeafgysgu digyffro mawr eu hangen.

## Llyffant Du

LLadin: *Bufo bufo*

Mae croen y llyffant du yn fwy sych a garw na chroen y broga. Y tu ôl i'r llygaid ar ochr y pen mae pâr o "chwyddau" sydd, mewn gwirionedd, yn chwarennau sy'n gallu cynhyrchu hylif ffiaidd fel dull amddiffyn rhag ysglyfaethwyr. Mae llyffantod yn tueddu i hercian yn hytrach na neidio ac o ran lliw maent yn amrywio bron cymaint â brogaod, er bod y rhan fwyaf yn tueddu i fod yn ffurf ar frown, yn aml gydag arlliw o wyrdd olewydd. Mae lliw'r llyffant yn amrywio yn ôl lliw y pridd yn ei gynefin. Os lliw llwydaidd sydd i'r pridd, bydd croen y llyffant yn tueddu i fod yn llwydaidd hefyd er mwyn gweddu iddi. Os mwy brownaidd yw lliw'r pridd, mae'r llyffant yn tueddu i fod yn fwy brownaidd hefyd.

Er eu bod yn gysylltiedig fel arfer â dŵr, mae llyffantod a brogaod yn treulio'r rhan fwyaf o'u hamser ar dir sych. Gan eu bod yn gaeth i'w harferion, mae'n bosib dod o hyd iddynt yn aml yn yr un fan wythnos ar ôl wythnos. Fodd bynnag, oherwydd eu gallu i gydweddu i'w cefndir ac aros yn gwbl llonydd am oriau ar y tro, gall fod yn anodd iawn eu gweld. Mae'r llyffant du'n gyffredin ledled Cymru, Lloegr a'r Alban, ond nid ydynt i'w cael yn Iwerddon.

Bydd llyffant yn dilyn ei ysglyfaeth nes ei fod yn ddigon agos i saethu ei dafod ludiog allan a'i dal. I helpu i lyncu ei fwyd, mae'n amrantu er mwyn gwthio'r bwyd i lawr. Maent yn bwyta mwydod, gwlithod a phryfed. Mae llyffantod mwy hefyd yn gallu cymryd nadroedd defaid, nadroedd bach y glaswellt a llygod medi, sy'n cael eu llyncu'n fyw. Mae croen y llyffant du'n oeraidd ac yn sych pan gyffyrddir ag ef, ond mae'n cynnwys sylwedd sy'n llosgi cegau anifeiliaid sy'n ceisio bwyta un. Dull amddiffyn effeithiol rhag ysglyfaethwyr yw hwn — ni fyddwch yn gweld cath yn codi llyffant yr eildro!

Mae llyffantod dafadennog hefyd yn llawer llai cyffredin y dyddiau hyn nag yn y gorffennol. Mae llyffantod yn teithio i byllau bridio hirsefydlog o ganol mis Chwefror tan fis Ebrill i fridio, gan gynhyrchu llinynnau hir o rifft y mae'r benywod yn eu clymu o amgylch coesynnau planhigion dŵr. Amser peryglus i'r llyffant yw'r tymor bridio, a chaiff llawer eu lladd ar yr heolydd wrth deithio i byllau bridio ac oddi yno. Yn aml byddant yn cerdded pellterau hir dros y tir i ddychwelyd i'w pyllau bridio. Fel arfer, hwn fydd y pwll gwreiddiol lle cawsant hwy eu magu. Er eu bod yn llai tebygol o ddefnyddio pyllau gerddi i fridio ynddynt na brogaod, gall llyffantod elwa ar greu pentyrrau cynefin syml.

Er bod yr oedolion yn treulio'r rhan fwyaf o'u hamser ar y tir, mae'r benywod yn mynd i mewn i byllau a chyrff dŵr llonydd eraill i ddodwy eu hwyau - grifft llyffantod- y gellir ei wahaniaethu

o rifft y broga cyffredin gan ei fod ar ffurf llinynnau yn hytrach na lwmp mawr o wyau. Caiff yr wyau eu dodwy yn y gwanwyn, pan fydd y benywod yn ceisio dychwelyd i'r dŵr lle cawsant eu geni. Mae'r penbyliaid ifanc yn debyg i benbyliaid eraill o ran gwedd ond bod gan benbyliaid llyffantod bennau mwy crwn a du a chynffonnau byrrach.

## Chwyrligwgan

Lladin: *Gyrinus substriatus*

Chwilen yw'r chwyrligwgan sy'n gyffredin ar draws Prydain ym mhob math o ddŵr llonydd lle nad oes gormod o lystyfiant ar yr arwyneb. Mae ganddo gorff llyfn, du, hirgrwn ac mae'r dau bâr o goesau ôl wedi'u haddasu'n fawr yn badlau di-fin. Lliw metelig sydd gan y chwyrligwgan a choesau oren. Mae'r coesau canol ac ôl wedi cael eu haddasu ar gyfer nofio; maent yn llydan, wedi ymwastatáu'n debyg i rwyfau, gydag ymyl flewog.

Mae gan chwilod chwyrligwgan lygaid cyfansawdd anarferol sydd wedi'u rhannu'n ddau – mae'r naill bâr uwchben wyneb y dŵr a'r llall islaw, sy'n eu galluogi i weld uwchben ac islaw wyneb y dŵr ar yr un pryd.

Mae 'heigiau' o lawer o chwilod chwyrligwgan yn troi ar wyneb dŵr agored wrth chwilio am ysglyfaeth. Os aflonyddir arnynt, byddant yn nofio o dan y dŵr; maent yn cario bwrlwm aer ar flaen yr abdomen wrth symud o gwmpas. Mae'r bwrlwm aer hwn yn gweithio fel tanc sgwba, gan eu galluogi i aros o dan y dŵr am gyfnodau hir. Rhywogaeth gyffredin iawn yw hwn ac yn aml mae'n creu cytrefi mewn pyllau gerddi cyn gynted ag yr adeiledir y rhain, hyd yn oed cyn bod ysglyfaeth addas ar gael. Ysglyfaethwr yw'r chwyrligwgan sy'n bwyta larfâu gwybed a chreaduriaid di-asgwrn-cefn eraill sy'n byw mewn dŵr. Yn yr hydref, mae'r oedolion yn hedfan i chwilio am byllau newydd. Mae eu larfâu hefyd yn ysglyfaethwyr o dan y dŵr.